# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Chestnut House**

**Cartref Nyrsio Chestnut House**
**Ffordd Penarlâg, Yr Hôb**
**Wrecsam**
**LL12 9NH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Chestnut House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Chestnut House Nursing Home Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 05 Hydref 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r cartref yn gynnes, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfeillgar ac yn rhoi sylw i'r bobl. Mae'r bobl yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y cartref ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfarwyddiadau clir am anghenion cymorth a dewisiadau'r bobl drwy gynlluniau personol sydd wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio gwybodaeth gan y bobl a'u teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn dilyn y cynlluniau hyn wrth roi cymorth i'r bobl. Mae'r darparwr yn sicrhau bod lefelau priodol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda yn y cartref bob amser. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau y maent yn eu mwynhau a chroesewir ymwelwyr.

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn diwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn monitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli o ddydd i ddydd. Caiff y gweithwyr gofal eu cefnogi gan y rheolwr drwy sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd staff rheolaidd. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac mae eu teuluoedd neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal a chymorth. Mae cymorth gan wasanaethau eirioli ar gael i'r bobl ac mae'r rheolwr a darparwr y gwasanaeth yn gwerthfawrogi ac yn parchu eu hadborth. Gwelsom fod y bobl yn gallu symud o amgylch y cartref fel y mynnant, a bod y gweithwyr gofal yn dilyn eu dewisiadau o ran gofal a chymorth. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely fel y mynnant, gan gynnwys eu hailaddurno a dod ag eitemau o ddodrefn neu ornamentau o'u dewis. Mae opsiynau ar gael i'r bobl ddewis ohonynt yn ystod amseroedd bwyd, a gwelsom y bobl yn cael bwyd a byrbrydau drwy gydol y dydd.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl. Gwelsom weithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r cartref ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol ac yn unol â chyngor proffesiynol. Gall y bobl wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac maent wedi gwneud ffrindiau yn y cartref, ac fe'i gwelsom yn sgwrsio ac yn cymdeithasu â'i gilydd. Mae'r bobl yn cael cymorth i fynd i ddigwyddiadau ac i siopa yn y gymuned leol. Croesewir ymwelwyr i'r cartref. Mae rhaglen o weithgareddau ar gael yn y cartref y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y bobl yn creu calonnau addurniadol i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y cartref yn dathlu gwyliau Cymreig a gwyliau diwylliannol a chrefyddol eraill. Mae'r rheolwr yn annog pob aelod o'r staff i ddysgu Cymraeg a dewisir gair Cymraeg y dydd i'r staff a'r preswylwyr ei ddefnyddio.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth yn y cartref. Mae'r darparwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau i arwain y staff yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd a bod y gweithwyr gofal yn eu dilyn wrth gefnogi'r bobl. Mae pob aelod o staff y cartref yn cwblhau hyfforddiant ar sut i ddiogelu oedolion agored i niwed a rhoi gwybod am bryderon, ac mae'r cofnodion yn dangos bod hyn yn bwnc trafod mewn cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant penodol ar bynciau fel dementia, sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Mae'r rheolwr wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol y bobl yn cael eu diwallu'n brydlon.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y cyfarpar a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar y bobl ar gael iddynt a bod y rhain yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Caiff trefniadau iechyd a diogelwch y cartref eu monitro a chaiff yr asesiadau risg perthnasol eu diweddaru'n ôl yr angen. Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel mewn argyfwng, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau er mwyn asesu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i lunio cynlluniau personol unigol ar gyfer eu gofal a'u cymorth. Gwelsom fod perthnasau yn cwblhau dogfen 'Dyma fi' fel rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth am hanes bywyd y bobl a'u dewisiadau o ran eu gofal a'u harferion dyddiol. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod yr asesiadau risg a ddefnyddir i lywio'r cynlluniau personol wedi'u teilwra ar yr unigolyn ac y cânt eu hadolygu'n fisol. Caiff y cynlluniau hefyd eu hadolygu'n fisol a'u diweddaru pan fydd newidiadau i anghenion y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal am anghenion cymorth unigol y bobl, ac mae'r cofnodion yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â'r cynlluniau hynny.

Caiff y bobl ofal gan weithwyr gofal caredig a chyfeillgar sy'n eu hadnabod yn dda ac yn ymateb iddynt mewn modd cynnes a pharchus. Mae cynlluniau personol y bobl ar gael i'r staff gofal drwy'r setiau llaw electronig y maent yn eu cario; maent yn defnyddio'r setiau llaw i gofnodi mewn amser real sut mae'r bobl wedi treulio eu diwrnod a'r cymorth y maent a ddarparwyd. Mae'r bobl yn edrych yn drwsiadus, gydag ewinedd glân a gwallt glân wedi'i frwsio. Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng y preswylwyr a'r staff gofal yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom y bobl a'r gweithwyr gofal yn gwenu at ei gilydd, yn cyd-ganu hoff ganeuon y bobl, ac yn rhannu jôcs. Mae'r staff gofal yn ymateb i anghenion y bobl ac yn cynnig cymorth mewn modd amserol. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y staff gofal yn hawdd mynd atynt a'u bod yn croesawu gweithwyr proffesiynol ac ymwelwyr i'r cartref ac yn cyfathrebu'n hyderus â nhw. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn deall sut i helpu pobl â dementia i deimlo'n gartrefol yn eu hamgylchedd. Roedd yr amgylchedd yn gadarnhaol, yn hamddenol ac yn gartrefol drwy gydol y dydd.

Mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff domestig a'r staff golchi dillad yn bresennol yn y cartref bob dydd. Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr arferion rheoli a rhoi meddyginiaethau priodol sydd ar waith yn y cartref yn cael eu hategu gan bolisïau a gweithdrefnau priodol. Mae'r cofnodion yn dangos tystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o gofnodion meddyginiaeth ac asesiadau cymhwysedd blynyddol, ynghyd â hyfforddiant ar gyfer y staff hynny sy'n rhoi meddyginiaethau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn cymryd unrhyw gamau gweithredu a nodir drwy archwiliadau meddyginiaeth allanol gan weithwyr proffesiynol mewn modd amserol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar ac mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Gwelsom dystiolaeth bod ystafelloedd y bobl a'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu hailaddurno’n ddiweddar. Mae'r lolfeydd a'r ardaloedd bwyta yn olau ac wedi'u hawyru'n dda, ac maent yn cynnwys digonedd o seddi i'r bobl. Gwelsom fod llieiniau bwrdd a lleoedd gosod ar y byrddau bwyta yn ystod amser cinio er mwyn gwella profiad bwyta'r bobl a helpu i gyfeirio'r bobl â dementia yn ystod amseroedd bwyd. Defnyddir yr ardal fwyta fawr ar gyfer gweithgareddau unigol a grŵp hefyd. Gwelsom fod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu hyrwyddo drwy arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r cartref a thrwy bosteri ymadroddion Cymraeg wedi'u fframio ar y waliau.

Mae'r darparwr yn parhau i fonitro'r broses o gwblhau a chofnodi gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn y cartref yn ystod ymweliadau rheolaidd yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y cyfarpar arbenigol a'r cyfarpar diogelwch tân yn y cartref yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n amserol ac yn briodol. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r safle ac asesiadau risg cysylltiedig eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro canlyniadau'r archwiliadau hyn fel rhan o'i ymweliadau rheolaidd â'r cartref. Eir i'r afael â materion cynnal a chadw a nodir drwy archwiliadau ac adroddiadau gan y staff mewn modd amserol. Caiff y cyfarpar a'r system larwm tân eu profi'n rheolaidd ac mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r gwasanaethau brys a'r staff mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi parhau i wella'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio sydd ar waith yn y cartref er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn tywys y staff. Mae'r rheolwr yn gofyn i'r staff ddarllen dau bolisi gwahanol bob mis er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt. Mae'r cofnodion yn dangos bod y tîm rheoli yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r broses o redeg y cartref o ddydd i ddydd ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu a nodir mewn modd amserol. Mae'r tîm rheoli yn derbyn canlyniadau ymchwiliadau allanol ac archwiliadau gan gomisiynwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref mewn modd cadarnhaol ac yn gweithredu arnynt. Mae'r adborth a gawsom gan gomisiynwyr yn cefnogi hyn. Mae'r darparwr wedi diweddaru ei brosesau monitro ansawdd ac wedi anfon holiaduron dwyieithog a holiaduron ar ffurf lluniau at y preswylwyr a'u perthnasau yn ddiweddar fel rhan o'r broses o gasglu adborth. Mae strwythurau rheoli effeithiol ar waith yn y cartref o hyd, a gefnogir gan uwch-reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cadw mewn cysylltiad â'r cartref ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae cofnodion ei ymweliadau'n dangos ei fod yn goruchwylio'r cartref yn briodol ac yn gweithio gyda'r uwch-reolwyr i gefnogi'r rheolwr.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod lefelau staffio priodol yn y cartref. Mae prosesau recriwtio diogel ac effeithiol ar waith, gan gynnwys gwiriadau fetio, fel rhan o'r broses o sicrhau bod aelodau newydd o staff yn addas i weithio yno. Mae'r rheolwr yn cwblhau gwiriadau cofrestru a fetio misol ar gyfer y staff er mwyn cadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i weithio yn y cartref. Mae aelodau newydd o staff yn ymgymryd â chyfnod sefydlu trylwyr sy'n berthnasol i'w rôl unigol yn y cartref, gan gynnwys cysgodi cydweithwyr profiadol a gwiriadau cymhwysedd. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y gweithwyr gofal, a ddywedodd wrthym eu bod yn cael amser i ddarllen y cynlluniau personol ac i ddod i adnabod y bobl fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y staff yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rolau yn hyderus, yn fedrus ac yn effeithiol. Mae'r rheolwr yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau newydd o staff er mwyn monitro eu cynnydd a sicrhau y darperir cymorth ychwanegol amserol lle bo angen. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu rolau a bod y rheolwr yn monitro dyddiadau diweddaru hyfforddiant. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y darperir cymysgedd o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb. Anogir y staff gofal i feithrin a defnyddio eu sgiliau Cymraeg ac mae rhai ohonynt yn dilyn cyrsiau Cymraeg drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r tîm rheoli yn cynnal sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd â'r staff er mwyn trafod eu hymarfer, polisïau ac unrhyw faterion y maent yn eu hwynebu. Gwelsom fod y staff yn hyderus i godi unrhyw ymholiadau neu bryderon gyda'r rheolwr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/03/2024